# Dewiswch y Gymraeg i'ch plentyn



## Ydych chi wedi ystyried addysg gyfrwng y Gymraeg?

Fel rhiant, penderfynu ar addysg eich plentyn fydd un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch chi'n eu gwneud. Mae llawer o fanteision i'w cael o anfon eich plentyn i ysgol gyfrwng Gymraeg. Daw'r manteision o fod yn rhan o gymuned ysgol sy'n dathlu dysgu iaith. Mae plant yn ffynnu trwy chwarae a dysgu yn y ddwy iaith. Gall mwy a mwy o rieni dystio bod dewis addysg gyfrwng y Gymraeg i'w plentyn wedi bod yn brofiad cadarnhaol a gwerth chweil ac yn fantais pan fyddant yn dechrau ym myd gwaith.

Oeddech chi'n gwybod bod bron i 98% o ddisgyblion addysg gyfrwng y Gymraeg yn Nhorfaen yn dod o gartrefi di-Gymraeg? Mae addysg gyfrwng y Gymraeg ar gael i bawb. Nid yw cyfran uchel o rieni plant yn ysgolion cyfrwng y Gymraeg Torfaen yn siarad Cymraeg ac nid yw hyn yn rhwystr. O ran y teuluoedd hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg, mae ysgolion yn rhannu popeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae ysgolion cyfrwng y Gymraeg yn dathlu bod yn amlieithog ac yn rhoi cyfle i blant dyfu i fyny gyda chymaint o sgiliau â phosibl. Mae'r plant yn dechrau dysgu Cymraeg o'r cychwyn cyntaf, a byddant yn ymdrochi yn yr iaith. Mae plant sy'n mynychu ysgol gyfrwng y Gymraeg yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 2. Byddant yn cael gwersi yn Saesneg o Flwyddyn 3 ac yn ei defnyddio yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm, felly'n dod yn ddwyieithog.

Mae ysgolion cyfrwng y Gymraeg yn sicrhau bod disgyblion ymdrochi'n llwyr yn yr iaith Gymraeg. Mae plant sy'n gadael ysgolion cynradd cyfrwng y Gymraeg yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r ddwy iaith ar draws y cwricwlwm.

## Ysgolion cyfrwng Cymraeg Torfaen

I'r rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae tair ysgol gynradd gyfrwng y Gymraeg ynghyd ag un ysgol 3-18 oed ar hyn o bryd, yn cynnig addysg cyfrwng y Gymraeg yn Nhorfaen. Mae meithrinfa ynghlwm wrth bob un.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ganolfan drochi i hwyrddyfodiaid. Cafodd Carreg Lam ei sefydlu i helpu dysgwyr sy'n dechrau addysg cyfrwng y Gymraeg yn ddiweddarach (rhwng 7 ac 11 oed) a'r disgyblion hynny, nad yw'r Gymraeg efallai wedi bod yn rhan o'u trefn ddyddiol. Yng Ngharreg Lam maent yn cael cyfle i feistroli'r

# Dewiswch y Gymraeg i'ch plentyn



sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i barhau i ddysgu drwy'r Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar www.carreg-lam.com

Mae disgyblion ysgolion cynradd Bryn Onnen, Cwmbrân a Phanteg yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Gwynllyw ym mlwyddyn 7 i barhau a'u haddysg uwchradd cyfrwng y Gymraeg.

Gall disgyblion o ysgolion cynradd Bryn Onnen, Ysgol Gymraeg Cwmbrân ac Ysgol Panteg wneud cais i barhau â'u haddysg uwchradd gyfrwng Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw o flwyddyn 7. Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn darparu addysg ôl-16 cyfrwng y Gymraeg.

## Ysgolion Cynradd

**Ysgol Bryn Onnen, H**eol Varteg, Varteg, Pont-y-pŵl. NP4 7RT
Ffôn: 01495 772284
Ebost: head.ysgolbrynonnen@torfaen.gov.uk
Gwefan: www.ysgolbrynonnen.com

**Ysgol Gymraeg Cwmbrân**, Ffordd Henllys, Sain Derfel, Cwmbrân. NP44 4HB
Ffôn: 01633 483383
Ebost: head.ysgolgymraegCwmbrân@torfaen.gov.uk
Gwefan: www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**Ysgol Panteg**, Station Road, Tref Gruffydd, Pont-y-pŵl. NP4 5JH
Ffôn: 01495 762581
Ebost: head.ysgolpanteg@torfaen.gov.uk
Gwefan: www.ysgolpanteg.cymru

## Ysgol Bob Oed 3-18

**Ysgol Gymraeg Gwynllyw**, Heol Folly, Trefddyn, Pont-y-pŵl. NP4 8JD
Ffôn: 01495 750405
Ebost: Swyddfa@gwynllyw.cymru
Gwefan: www.gwynllyw.cymru

Mae yna feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael yn ein darpariaethau nas cynhelir, ewch i wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd am ragor o wybodaeth – www.torfaenfis.org.uk